## Uned 15

## Ffrwythlondeb mewn Gwartheg a Defaid

## Taflen Wybodaeth

**Cyflwyniad**

Ffrwythlondeb yw gallu'r gwryw a'r fenyw i atgenhedlu.

Mae system atgynhyrchu'r ddau o dan ddylanwad amrediad o gonadotropinau sy'n gweithredu mewn dilyniant.

Bydd y sesiwn hon yn delio â phrif broblemau ffrwythlondeb yn y fenyw, a bydd yn canolbwyntio ar y rhesymau iechyd sy'n achosi cyfraddau beichiogi isel. Ar gyfer y sesiwn hon, byddai'n fuddiol adolygu'r llwybrau atgynhyrchiol y fenyw a'r gwryw yn y fuwch a'r ddafad.

a) y fuwch odro
b) y fuwch sugno
c) y famog.

**a) Y Fuwch Odro**

**Cyfnod lloea**

Mae cyfnod o 365 diwrnod rhwng lloea yn ddelfrydol i'r fuwch odro.

**Camau'r cyfnod lloea o 365 diwrnod**

- dileu haint wterws
- cylchred oestrws rheolaidd
- canfod gwres
- ffrwythloniad
- mewnblannu embryo
- marwolaethau embryonig minimal
- osgoi erthyliadau
- geni llo byw.

Prif achosion cyfraddau **beichiogi isel**

- arsylwi gwael am embryo
- cyfebru'n rhy gynnar ar ôl lloea
- arsylwi gwael ar wres
- amseru gwael ar gyfer Semenu Artiffisial
- llid y famog
- Iau brasterog
- clefyd y genitalia a heintiau eraill e.e. Leptosbirosis
- straen
- cyfleusterau trin gwael
- techneg gweithredwr Semenu Artiffisial (*AI*)
- ansawdd semen
- maethiad.

**Prif resymau dros ffrwythlondeb gwael (cyfradd beichiogi isel) yn y Fuwch Odro**

- llid y famog
- iau brasterog

- ofarïau cystig
- maethiad gwael - mewnbwn egni isel
- diffyg elfen hybrin neu fitamin

Achosir erthyliadau gan:

- leptosbirosis
- *BVD*
- *IBR* - rhinotraceitis heintus y gwartheg
- neospora
- salmonelosis
- heintiau'r genitalia e.e. Abortws Brwsela, Ffoetws Tricosomonas a Campylobacter.

**b) Y Fuwch Sugno**

3 prif reswm dros gyfraddau beichiogiad isel:

- sgôr cyflwr corff isel – naill ai'n rhy denau neu'n rhy dew
- mwynau, elfennau hybrin neu fitaminau annigonol
- clefyd.

**Prif glefydau ffrwythlondeb y Fuwch Odro**

- metritis neu haint wterws yn deillio o loea anodd
- llid y famog
- *BVD*
- Tafod Glas.

**d) Y Famog**

**Gall perfformiad atgynhyrchu is-optimaidd (o dan y gyfradd arferol) mewn mamog gael ei achosi gan:**

- gyfraddau ofyliad isel – yn gysylltiedig â sgôr cyflwr corff: rhy dew/denau
- gyfraddau beichiogiad isel - yn gysylltiedig â sgôr cyflwr corff: rhy dew/denau
- adamsugniad o'r ffoetws yn y cyfnod - straen maethol/gwirioneddol
- marwolaeth hwyr y ffoetws
- erthyliad
- marw-enedigaeth
- dystocia – ŵyna anodd
- cwymp y groth
- gallu magu gwael.